# Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn nodi'r safonau y dylai cynhyrchwyr ystadegau ymrwymo iddynt.

Mae ystadegau swyddogol yn golygu ystadegau a gynhyrchir gan gyrff y Goron a sefydliadau eraill a restrir mewn Gorchymyn Ystadegau Swyddogol, ar ran Llywodraeth y DU neu weinyddiaethau datganoledig. Mae Medr wedi'i restru fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol trwy Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024.

Rydym yn cyhoeddi ystod o ystadegau swyddogol ar y sector addysg drydyddol. Arferai rhai o'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru neu Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) i sicrhau bod ystadegau swyddogol a arferai gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru'n parhau i gydymffurfio â'r Cod. Bydd rhai ystadegau a arferai gael eu cyhoeddi gan CCAUC yn cael eu cyhoeddi gennym ni fel ystadegau swyddogol am y tro cyntaf.

Ni fydd yr holl ystadegau a gyhoeddir gennym yn ystadegau swyddogol. Wrth benderfynu a yw ystadegau'n ystadegau swyddogol, rydym yn ystyried y Cod, canllawiau eraill gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ac yn ymgynghori â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau. Lle'r ydym wedi penderfynu nad yw ystadegau'n ystadegau swyddogol, rydym yn egluro ein rhesymau pam ac yn cymhwyso agweddau priodol ar y Cod.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y mae ein hystadegau swyddogol yn cydymffurfio â thri chonglfaen y Cod – dibynadwyedd, ansawdd a gwerth.

## Dibynadwyedd

**Hyder yn y bobl a'r sefydliadau sy'n cynhyrchu ystadegau a data.**

Cyflwynir ein hystadegau'n ddiduedd, yn wrthrychol a heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol na masnachol. Mae pawb sy'n gweithio gydag ystadegau a data yn ein sefydliad yn eu trin yn ddiogel, ac yn eu defnyddio â gonestrwydd ac uniondeb. Mae ein hystadegwyr yn cynghori ynghylch defnyddio ystadegau yn ein cyfathrebiadau eraill megis dogfennau polisi neu ddatganiadau i'r wasg.

Ein Swyddog Arweiniol ar gyfer Ystadegau yw ein Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi. Mae'n gyfrifol am ein cydymffurfiaeth â'r Cod ac fe'i cynorthwyir gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru, fel Pennaeth y Proffesiwn ar gyfer Ystadegau yng Nghymru.

Mae cyhoeddiadau ystadegol sydd ar ddod yn cael eu rhestru yn ein calendr rhyddhau. Rydym yn amcanu at ddarparu calendr rhyddhau sy'n rhychwantu cyfnod o 12 mis a gwneud y dyddiad cyhoeddi'n hysbys o leiaf bedair wythnos ymlaen llaw. Rydym hefyd yn hysbysu ynghylch cyhoeddiadau ystadegol sydd ar ddod trwy galendr ystadegau ac ymchwil Llywodraeth Cymru. Os ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r calendr, rydym yn

esbonio pam. Rydym yn cyhoeddi ein hystadegau ar ein gwefan am 9:30am ar y dyddiad a wnaed yn hysbys.

Mae mynediad at ein hystadegau cyn eu rhyddhau'n gyhoeddus yn gyfyngedig, fel a nodir yn ein polisi ar fynediad at ystadegau cyhoeddus cyn eu rhyddhau.

Gall rhai o'n hystadegau gael eu diwygio yn y dyfodol a gall y diwygiadau hynny fod yn rhai wedi'u trefnu neu heb eu trefnu. Mae ein polisi ar ddiwygiadau a chywiriadau i ystadegau'n egluro ein dull.

Trwy ein hymgysylltiad â defnyddwyr ein hystadegau, rydym yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o'r ystadegau yr ydym yn eu cyhoeddi a rhoi gwybod iddynt am ein cynlluniau a'n blaenoriaethau. Mae'r cyhoeddiadau ystadegol a restrir yn ein calendr rhyddhau'n ganolog i'n rhaglen waith.

Fel gyda'n holl weithgarwch recriwtio, rydym yn recriwtio ystadegwyr yn unol â'n gwerthoedd. Rydym hefyd yn defnyddio fframwaith cymhwysedd Grŵp Ystadegwyr y Llywodraeth ar gyfer rhai rolau penodol. Mae ein hystadegwyr yn cael yr amser a'r adnoddau y mae eu hangen arnynt i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u cymwyseddau.

Rydym yn ymrwymedig i brosesu gwybodaeth bersonol mewn modd cyfrifol, yn unol â deddfwriaeth diogelu data a'n polisïau mewnol. Mae hyn yn cynnwys:

- defnyddio trefniadau rheoli datgelu ystadegol i ddiogelu cyfrinachedd gwrthrychau data
- storio a throsglwyddo gwybodaeth yn ddiogel
- prosesu gwybodaeth bersonol mewn modd teg
- mynd ati'n rheolaidd i asesu'r risgiau o ddatgelu pwy yw unigolion yn y data ac allbynnau ystadegol cysylltiedig
- unrhyw gamau lliniaru i leihau'r risgiau hynny.

## Ansawdd

**Data a dulliau sy'n cynhyrchu ystadegau â sicrwydd.**

Rydym yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am ansawdd ochr yn ochr â phob un o'n cyhoeddiadau ystadegol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau data, y dulliau a ddefnyddir i gynhyrchu'r ystadegau a'n prosesau sicrhau ansawdd. Rydym yn dryloyw ynglŷn ag unrhyw gyfyngiadau yn ein ffynonellau data a'n hystadegau.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ffynonellau data wrth gynhyrchu ein hystadegau. Rydym yn ystyried ansawdd pob un o'r rhain yng nghyd-destun yr ystadegau a ddeillir ohonynt. Mae'r ystadegau a gyhoeddir gennym yn cael eu crynhoi gan ein hystadegwyr gan ddefnyddio data a dulliau priodol.

Ein nod yw sicrhau bod ein hystadegau'n gywir, yn ddibynadwy, yn gydlynol ac yn amserol. Rydym yn ystyried cryfderau a chyfyngiadau'r data a'r dulliau a ddefnyddir i gynhyrchu ein hystadegau mewn perthynas â gwahanol anghenion defnyddwyr ein hystadegau.

## Gwerth

**Ystadegau sy'n cefnogi angen cymdeithas am wybodaeth.**

Rydym yn amcanu at gynhyrchu ystadegau sy'n ddefnyddiol, yn hawdd cael mynediad atynt, yn berthnasol ac yn cefnogi dealltwriaeth am y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Mae ein dadansoddiadau ystadegol ar gael yn gyhoeddus, yn rhad ac am ddim.

Mae defnyddwyr ein hystadegau'n ganolog i'n dull o'u cynhyrchu. Rydym yn amcanu at gynnal a diweddaru ein dealltwriaeth am y modd y defnyddir ein hystadegau ac y gallent gael eu defnyddio. Cynhwysir pwyntiau cyswllt yn ein holl gyhoeddiadau ystadegol. Rydym yn ymgysylltu'n rhagweithiol â defnyddwyr ac rydym hefyd yn croesawu adborth ac ymholiadau.

Rydym yn ymrwymedig i adolygu ein hystadegau'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Yn ogystal ag adborth defnyddwyr rydym yn defnyddio offer eraill, megis dadansoddeg y we, i'n helpu i oleuo ein dealltwriaeth.

Os oes ar ddefnyddiwr angen dadansoddiad nad yw eisoes ar gael trwy ein cyhoeddiadau yna gall ofyn inni ei gynhyrchu ar ei g/chyfer. Rydym yn amcanu at ddarparu ymateb amserol i'r ceisiadau hyn lle mae gennym y data a'r adnoddau i wneud hynny. Rydym yn amcanu at gyhoeddi unrhyw ddadansoddiad ystadegol ad hoc ar gyfer defnyddwyr allanol ar ein gwefan fel ei fod ar gael i bawb, lle y bo'n briodol.

Rydym yn amcanu at ddilyn canllawiau Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth ar wneud ystadegau'n hygyrch.

Cyhoeddir setiau data'n agored ar wefan StatsCymru. Bydd unrhyw daenlenni a gyhoeddir gennym mewn fformat Taenlen OpenDocument. Mae'r rhain yn sicrhau bod unrhyw un yn gallu defnyddio, ailddefnyddio ac ailddosbarthu ein data'n rhydd.

Mae'r ystadegau swyddogol a gyhoeddir gennym yn cael eu cyflwyno'n eglur ac yn ddiamwys. Rydym yn darparu sylwebaeth ystadegol eglur i esbonio tueddiadau a nodweddion allweddol yn y data. Mae'r modd yr ydym yn delweddu data'n dilyn canllawiau arfer gorau. Bydd termau technegol yn cael eu hesbonio'n glir.

Anogir ein hystadegwyr i wella ein hystadegau a'n data trwy harneisio offer newydd, cydweithio gyda dadansoddwyr eraill ac aros gyfuwch â'r datblygiadau diweddaraf mewn meysydd megis dulliau, ansawdd a delweddu data.

## Cysylltu â ni

Rydym yn croesawu unrhyw adborth neu ymholiadau ynghylch ein hystadegau. Anfonwch neges e-bost i statistics@medr.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg | We welcome correspondence in Welsh.